



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Dyddiad cyhoeddi: 1 Awst 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Hydref 2016

Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Trosolwg

Mae Adran 78(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu strategaeth sy'n dangos sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Mae Adran 78(4) yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth yn barhaus ac yn eu caniatáu i fabwysiadu strategaeth newydd o bryd i'w gilydd. Mae'r ymgynghoriad yma felly yn gofyn am eich barn chi ar ein cynigion ar gyfer y strategaeth fydd yn disodli'r strategaeth bresennol *iaith fyw: iaith byw* (2012–2017) pan ddaw cyfnod y strategaeth honno i ben. Yn unol â'r dyletswydd yn Adran 78(5) o'r Ddeddf, rydym yn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori yma i roi'r cyfle i bawb gael lleisio eu barn ar ein cynlluniau ni i wireddu ein gweledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **31 Hydref 2016** fan hwyraf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen (2014)

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf (2016)

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:
Uned y Gymraeg
Is-Adran y Gymraeg
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:

UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 060 4400

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair	2
Adran 1 – Crynodeb gweithredol	3
Y flwyddyn 2050	3
2016 – nawr a nesaf	3
Ein blaenoriaethau	3
Adran 2 – Cyflwyniad	5
Pam strategaeth hirdymor?	5
Yr her	5
Adran 3 – Gwireddu'r weledigaeth	8
Chwe maes datblygu	8
Adran 4 – Y meysydd datblygu	9
Maes datblygu 1: Cynllunio a pholisi iaith	9
Maes datblygu 2: Normaleiddio	11
Maes datblygu 3: Addysg	12
Maes datblygu 4: Pobl	14
Maes datblygu 5: Cefnogi	16
Maes datblygu 6: Hawliau	18
Adran 5 – Gweithredu yn y tymor byr: y pum mlynedd cyntaf	19
Adran 6 – Diweddsglo	21

Rhagair

Rwyf wedi ymgyrchu dros y Gymraeg ers nifer fawr o flynyddoedd ac felly braint yw cael arwain ar y portffolio iaith ar ran Llywodraeth Cymru.

Ein huchelgais ni fel Llywodraeth yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Does dim dwywaith fod hon yn uchelgais heriol, ond rwy'n grediniol fod angen i ni osod uchelgais o'r fath os ydym am wneud gwahaniaeth gwirioneddol i sefyllfa'r Gymraeg.

Rwy'n glir mai ein cyfrifoldeb ni fel Llywodraeth yw gosod cyfeiriad ac arwain y gwaith. Mae gan y Llywodraeth hon yr ewyllys a'r ymroddiad i wneud hynny. Ond mae hefyd yn hanfodol i ni i gyd fel cenedl gyfan berchnogi'r her.

Ni all Llywodraeth fynnu bod rhiant yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i blentyn. Ni all fynnu bod plant yn chwarae gyda'i gilydd yn Gymraeg. Ac ni all fynnu bod rhywun yn defnyddio'r Gymraeg yn y swyddfa bost.

Mae hwn yn rhan o gynllun ar ein cyfer ni fel cenedl ac fel cymdeithas. Mae'n fater i bob un ohonom ni. Dyna pam fy mod yn falch o gyhoeddi'r ymgynghoriad hwn ar strategaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg.

Rydym wedi gosod ein cynigion yn y ddogfen, ac wrth gwrs rwy'n awyddus i gynifer o bobl â phosib ymateb i'r cynigion hynny. Ond nid wyf am eistedd yn ôl ac aros am eich ymatebion. Dros y misoedd nesaf rwyf am ddod i gwrdd â chymaint ohonoch â phosib ar draws y wlad i drafod, sgwrsio a rhannu syniadau. Rwyf am i bobl deimlo perchnogaeth o'r weledigaeth, ac rwyf am ennyn cefnogaeth i'r weledigaeth.

Un neges glir yn y ddogfen hon yw bod angen i ni gyrraedd sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn elfen hollol naturiol o bob agwedd ar fywyd bob dydd. Os ydym am wireddu hynny, mae'n rhaid i'r genedl gyfan fod yn rhan o'r drafodaeth – boed yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn siaradwyr Cymraeg sy'n gyndyn o ddefnyddio'r iaith, yn siaradwyr newydd sydd wedi dysgu'r iaith, neu yn bobl sydd ddim yn cyfri eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Mae gan bawb ran i'w chwarae, ac rwyf am i bawb gyfrannu.

Gyda'n gilydd, gallwn dyfu'r Gymraeg a chreu cenedl wirioneddol ddwyieithog.

Alun Davies AC

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Adran 1 – Crynodeb gweithredol

Y flwyddyn 2050

Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, gyda nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn. Mae'n naturiol ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd, ac ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati a gwerthfawrogiad o'i chyfraniad diwylliannol ac economaidd.

2016 – nawr a nesaf

Mae'r weledigaeth yn glir – bod yna filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn gwireddu hynny rydym yn rhagweld bod angen i sawl peth ddigwydd: mwy o blant mewn addysg Gymraeg, gwell cynllunio ynghylch sut mae pobl yn dysgu'r iaith, rhagor o gyfleoedd i'w defnyddio a'r rheini'n hawdd eu cyrraedd, cryfhau'r seilwaith a chwyldro i wella darpariaeth ddigidol yr iaith, a newid sylweddol yn y ffordd rydym yn siarad amdani.

Mae'r ddogfen hon yn gosod ein blaenoriaethau strategol o ran sut i gyrraedd miliwn, ac yn nodi'r prif bethau y mae'n rhaid iddyn nhw ddigwydd os ydym am weld y newid angenrheidiol.

Ein blaenoriaethau

Mae'r iaith Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl, ac yn rhan annatod o'n bywydau bob dydd. Yn ôl y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, roedd 562,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ar sail hynny, nod y strategaeth hon fydd bron i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn canol y ganrif. Rydym yn cynnig felly ein bod yn blaenoriaethu 6 maes gweithredu allweddol.

1 – Cynllunio a pholisi iaith: Er mwyn i holl elfennau eraill y strategaeth hon fod yn effeithiol, mae angen cynllunio synhwyrol a phwrpasol i roi'r rhaglenni priodol yn eu lle ar yr amser cywir. Er enghraifft, os am gynyddu'r niferoedd ar y raddfa sydd ei hangen, y cam cyntaf angenrheidiol mewn unrhyw strategaeth fydd creu cyflenwad digonol o athrawon i addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

2 – Normaleiddio: Drwy feithrin parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg ymysg pobl sy'n ei siarad, ac ewyllys da tuag ati ymysg y rheini nad ydynt yn ei siarad, rydym am weld y Gymraeg yn rhan normal o fywyd bob dydd. Mae hyn yn golygu bod pobl yn teimlo'n gyfforddus yn dechrau sgwrs yn Gymraeg, y gallant ddisgwyl derbyn gwasanaethau yn Gymraeg, a bod pobl yn gyfarwydd â chlywed a gweld y Gymraeg.

3 – Addysg: Mae angen cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael addysg Gymraeg ac sydd â sgiliau Cymraeg, am mai ond drwy alluogi rhagor o bobl i ddysgu Cymraeg y bydd modd cyrraedd miliwn o siaradwyr. Mae'r blynyddoedd cynnar hefyd yn hanfodol, oherwydd y cynharaf y mae plentyn yn cael cyffyrddiad â'r iaith, y mwyaf o gyfle sydd ganddo i ddod yn rhugl.

4 – Pobl: Yn ogystal â dysgu, bydd yn hollbwysig cynyddu nifer y bobl sy'n trosglwyddo Cymraeg i'w plant. Mae angen rhagor o gyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau, ac annog rhagor ohonynt i fanteisio ar y cyfleoedd hynny. Mae'r rhain yn cynnwys ar lefel unigolion, y teulu, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau

lleol, neu fel aelodau o rwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach a all fod ar wasgar ym mhedwar ban byd.

5 – Cefnogi: Mae datblygu seilwaith cadarn a chyfoes i gefnogi'r iaith yn hanfodol er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, gwella eu hyder i wneud hynny, a hwyluso ei defnyddio mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Mae adnoddau digidol, cyfryngau iach ac amrywiol, proffesiwn cyfieithu ymatebol a modern, a chorpws sy'n adlewyrchu ac yn cynnal statws y Gymraeg fel iaith fyw, yn hollbwysig, a hynny ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar bob lefel.

6 – Hawliau: Mae deddfwriaeth yn gosod sylfaen ddiamedd i gyrff weithredu o blaid yr iaith ac i siaradwyr Cymraeg ei defnyddio. Mae angen ysgogi unigolion i fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r hawliau hyn yn eu cynnig. Y nod hirdymor yw symud at sefyllfa lle mae'r hawliau hyn wedi eu gwreiddio fel rhan naturiol o wasanaethau.

Cynigiwn mai'r chwe maes hyn fydd y sail ar gyfer gweithredu bwriadus dros y tymor hir er mwyn cyrraedd y nod.

Adran 2 – Cyflwyniad

Pam strategaeth hirdymor?

Mae'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn golygu bod yn rhaid wrth gynllunio hirdymor er mwyn cymryd y camau breision sy'n angenrheidiol.

Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar y gwaith a wnaed mewn perthynas â strategaethau blaenorol Llywodraeth Cymru - *laith Pawb*, *laith fyw: iaith byw*, a'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* - ond mae edrych ar y darlun hirdymor yn golygu na all y strategaeth hon ddilyn yr un patrwm â rhai blaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r awydd i osod cyfeiriad uchelgeisiol a gwirioneddol strategol ar gyfer pob maes sy'n dylanwadu ar yr iaith. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod angen creadigrwydd os am gyrraedd miliwn.

Mae edrych ar y tymor hir yn cyd-fynd â chydabyddiaeth y Llywodraeth bod effaith cynllunio ieithyddol yn rhywbeth y gellir ei fesur fesul cenhedlaeth. Rhaid sefyll tir felly a chydabod y bydd blynyddoedd cyntaf y strategaeth hon yn gweld camau'n cael eu cymryd i roi'r sylfeini yn eu lle er mwyn caniatáu i gynnydd ddigwydd. Rydym yn rhagweld y gwelir y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg tua diwedd oes y strategaeth.

"Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu" yw un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn golygu bod dyletswydd eisoes ar nifer o gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithredu er mwyn gwireddu'r nod hwnnw yn y tymor hir, fel rhan o'r camau i greu y math o Gymru rydym eisiau ei gweld yn 2050.

Un o brif negeseuon y strategaeth hon yw bod angen i'r Gymraeg gael ei hystyried a'i phrif-frydio ym mhob cynllun, polisi a strategaeth ledled ystod o sefydliadau, yn ogystal ag wrth lunio deddfwriaeth.


Cwestiwn ymgynghori: Ydych chi'n cytuno gyda'r dull o greu strategaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg?

Yr her

Mae'r uchelgais o filiwn o siaradwyr yn heriol ond, o'i chyflawni, byddai'n gwyrddroi'r gostyngiad a welwyd yn nifer y siaradwyr dros yr ugeinfed ganrif. Ym 1911, roedd bron i filiwn (977,000) o siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yng Nghymru.

Mae'r siart isod yn dangos taith yr iaith dros y ganrif ddiwethaf. Ar sail ffigurau'r Cyfrifiad, mae angen oddeutu 438,000 o siaradwyr Cymraeg newydd erbyn 2050 os am gyrraedd miliwn. Rhaid cofio bod hyn yn ychwanegol at gadw'r niferoedd fel ag y maen nhw, gyda marwolaethau ac allfudo'n effeithio ar nifer y siaradwyr presennol.

Siart 1: Nifer y bobl tair oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg, Cyfrifiad 1911-2011, ynghyd â'r uchelgais erbyn 2050 (a)



(a) Noder nad oedd Cyfrifiad ym 1941.

Petai cynnydd yn digwydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod oes y strategaeth hon, ein tybiaeth yw y byddai'n debygol o fod yn arafach na'r llinell doredig uchod ar ddechrau'r cyfnod, a chyflymu tuag at y diwedd. Gwaith rhan gyntaf y strategaeth hon fydd gosod y seiliau a fydd yn caniatáu i'r cynnydd cyflymach hwn ddigwydd.

Gwahaniaeth rhwng ffynonellau

Er mai'r Cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol ar gyfer nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, a dyma yw ein man cychwyn ni, mae ffynonellau eraill hefyd yn cynnig amcangyfrifon am nifer y siaradwyr Cymraeg.

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth am allu ymatebwyr i siarad Cymraeg, a pha mor aml maent yn gwneud hynny. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn casglu'r wybodaeth honno, gan ofyn yn ogystal am ruglder siaradwyr Cymraeg, ond mae hynny ar gyfer oedolion 16 oed a throsodd yn unig.

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amcangyfrif bod tua 26 i 27 y cant (sef 810,500) o bobl tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn amcangyfrif bod tua 23 i 24 y cant (sef 607,000) o bobl 16 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg.

Ni wyddom pam yn union fod cymaint o wahaniaeth rhwng yr amcangyfrifon hyn, ond mae gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr arolygon a'r Cyfrifiad eu cynnal yn debygol o fod wedi effeithio ar y canlyniadau. Mae yna gwestiynau ynghylch dibynadwyedd data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth felly, ac mae prosiect ar waith i geisio deall yn well y gwahaniaethau rhwng y Cyfrifiad ac Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Dulliau caffael iaith

O ran ffigurau'r Cyfrifiad, trosglwyddo iaith a'r system addysg yw'r ddau faes sy'n hollbwysig ar gyfer ffyniant yr iaith a chreu siaradwyr. O edrych ar ffigurau'r Cyfrifiad diweddaraf, mae'n dangos pwysigrwydd trosglwyddo o fewn teuluoedd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, a bod lle i gynyddu'r gyfradd sy'n trosglwyddo mewn teuluoedd dwyieithog. Ar hyn o bryd, mewn aelwydydd lle gall dau riant siarad Cymraeg mae 82 y cant o blant tair i bedair oed yn gallu siarad Cymraeg. Mewn aelwydydd lle gall un riant allan o ddau siarad Cymraeg, mae 45 y cant o blant tair i bedair oed yn gallu siarad Cymraeg.

Pe bai'r gyfradd drosglwyddo wedi bod yn 100 y cant (h.y. bod pob riant i blentyn tair i bedair oed mewn aelwydydd lle gall o leiaf un riant siarad Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith i'w plentyn) yna byddem wedi gweld 6,300 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol yng Nghyfrifiad 2011. Mae pen draw i'r nifer ychwanegol o siaradwyr Cymraeg y gellid eu creu o drosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r nesaf oni bai bod rhagor o rieni, yn y man cyntaf, yn penderfynu dysgu Cymraeg, ac yn ail yn ei throsglwyddo i'w plant. Dyma pam ei bod yn hanfodol creu siaradwyr drwy'r gyfundrefn addysg sydd yn mynd i drosglwyddo'r iaith i'w plant.

Rydym yn cydnabod mai'r system addysg statudol yw'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd. Mae data ysgolion yn dweud wrthym faint o blant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae tua 22 y cant (sef 7,900) o ddysgwyr ym Mlwyddyn 2 yn cael eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf). Petai'r ganran hon yn codi i 50 y cant yna byddai hyn yn oddeutu 18,000 o ddysgwyr (ar sail maint y garfan o ddysgwyr ym Mlwyddyn 2 yn 2015), sef tua 10,000 yn ychwanegol o blant. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 331 o ddosbarthiadau newydd cyfrwng Cymraeg drwy Gymru gyfan. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ymrwymiad y system addysg i greu miliwn o siaradwyr.

Rhaid hefyd cofio pwysigrwydd y maes dysgu Cymraeg fel oedolion. Yn ôl y data diweddaraf, mae 15,520 yn dysgu Cymraeg fel oedolion. Mae angen gwneud gwaith pellach i gael darlun mwy eglur o'r nifer sy'n dysgu Cymraeg ac yn hyderus i'w defnyddio, a bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd yn mynd i'r afael â hyn.

Cwestiwn ymgynghori: Ar wahân i filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, does dim targedau penodol ynghlwm wrth y strategaeth ddrafft hon ar hyn o bryd. Yn eich barn chi, a oes unrhyw dargedau neu gerrig milltir penodol y dylid eu defnyddio er mwyn mapio'r siwrne a mesur ein cynnydd tuag at filiwn o siaradwyr?

Byddwn yn defnyddio'ch awgrymiadau i lunio glasbrint neu "roadmap" yn dangos hyd a lled y daith dros y blynyddoedd nesaf.

Adran 3 – Gwireddu'r weledigaeth

Mae'r weledigaeth yn glir: rydym am weld miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Sut mae gwireddu hynny ac ateb yr her a amlinellwyd yn yr adran flaenorol?

Mae'n amlwg i Lywodraeth Cymru fod cwrdd â'r her yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol. Mae angen gwthio'r ffiniau er mwyn creu'r newid sydd ei angen i bobl fod yn hyderus i ddysgu neu ddefnyddio'r Gymraeg.

Rhaid cydnabod nad cychwyn y daith yw'r cynigion yn y strategaeth ddrafft hon. Mae cynnydd sylweddol wedi digwydd o ran cefnogaeth lywodraethol i'r Gymraeg dros y 15 mlynedd diwethaf. Bellach, mae gan y Gymraeg statws swyddogol, mae deddfwriaeth yn ei lle sy'n rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau Cymraeg, gyda Chomisiynydd i oruchwylio gweithredu'r hawliau hyn. Mae sail statudol hefyd i'r gyfundrefn o gynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae'r "Gymraeg sy'n ffynnu" wedi'i chynnwys yn un o nodau llesiant cenedlaethol Cymru.

Mae'r Strategaeth ddrafft hon yn ein symud ymlaen i'r cam nesaf yn ein datblygiad ieithyddol fel cenedl, ac yn adeiladu ar y sylfeini sydd eisoes wedi'u gosod.

Rydym felly yn glir taw ymgynghoriad ar *sut* i gyflawni ein huchelgais yw hon.

Chwe maes datblygu

Cyflwynir cynigion yng ngweddill y ddogfen sy'n cyfleu ymrwymiad y Llywodraeth i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan bobl ar y pwyntiau allweddol yn eu bywydau. Y bwriad yw sicrhau bod y Gymraeg yn rhan berthnasol, ddeniadol o fywyd o'r crud i'r bedd.

Rydym wedi adnabod chwe maes datblygu strategol ar gyfer cyflawni'r weledigaeth, sef:

1. Cynllunio a Pholisi Iaith
2. Normaleiddio
3. Addysg
4. Pobl
5. Cefnogi
6. Hawliau

Cwestiynau ymgynghori:

Ydych chi'n cytuno'n gyffredinol â'r 6 maes datblygu a amlinellir yn y strategaeth – sef Cynllunio, Normaleiddio, Addysg, Pobl, Cefnogi, a Hawliau?

Sut allwch chi gyfrannu at gyflawni'r weledigaeth sydd yn y strategaeth?

Adran 4 – Y meysydd datblygu

Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno'r chwe maes strategol a'n prif amcanion, ac yn cynnig nifer o gamau i'w cymryd er mwyn cyflawni'r weledigaeth o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Maes datblygu 1: Cynllunio a pholisi iaith

Os ydym am gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar y raddfa sydd ei hangen, mae angen dechrau gyda chynllunio. Mae hyn yn golygu prif-ffrydio'r Gymraeg fel ei bod yn rhan annatod o gynllunio strategol ar bob lefel. Bydd lledaenu dealltwriaeth o hanfodion cynllunio ieithyddol bwriadus yn rhan bwysig o wireddu hynny. Felly hefyd yr angen am waith ymchwil a chasglu data cyson er mwyn deall sefyllfa'r Gymraeg yn llawn.

Oherwydd pwysigrwydd addysg, sicrhau gweithlu sy'n ateb y galw ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yw'r man cychwyn wrth sôn am greu rhagor o siaradwyr. Mae hyn yn golygu cynllunio er mwyn cefnogi athrawon dan hyfforddiant a chynorthwywyr dysgu, ehangu cynlluniau sabothol ar gyfer y gweithlu presennol, a chynyddu'n sylweddol nifer y gweithwyr yn y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar.

Amcan:

Creu gweithlu sydd â'r sgiliau addas i addysgu a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sut:

- Cynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon a'r ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn ein galluogi i addysgu rhagor o blant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynyddu nifer y lleoedd gofal plant Cymraeg er mwyn ateb y galw ymysg rhieni a gwarcheidwaid, a dechrau cymaint o blant â phosib ar y daith at ddwy iaith.
- Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg mewn nifer o feysydd arbenigol a gwasanaethau, fel bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r bobl sy'n eu dewis.
- Normaleiddio cynllunio ieithyddol a sicrhau bod arweinwyr priodol yn y manau cywir, fel bod y Gymraeg yn cael ystyriaeth awtomatig wrth gynllunio gweithlu a phenderfynu pa sgiliau sydd eu hangen.

Amcan:

Sicrhau bod y Gymraeg yn uwch ar yr agenda fel bod ymwybyddiaeth ohoni, a gweithredu cadarnhaol ar ei rhan, yn digwydd ar y lefel uchaf o fewn sefydliadau, busnesau ac yn y sffêr wleidyddol.

Sut:

- Gwella cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg ar draws llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn ehangach, yn arbennig yng nghyd-destun datblygu economaidd.
- Am fod seilwaith economaidd yn rhan annatod o gynllunio ieithyddol lleol, datblygu ein dealltwriaeth o sut i fanteisio ar hyn a sicrhau bod ystyriaeth o'r Gymraeg yn digwydd ar gychwyn unrhyw ddatblygiadau, prosiectau neu raglenni.

Cwestiwn ymgynghori: A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn gwella cynllunio mewn perthynas â'r Gymraeg?

Maes datblygu 2: Normaleiddio

Er mwyn i'n camau i gynllunio ar gyfer y Gymraeg fod yn llwyddiannus, mae angen manteisio i'r eithaf ar ewyllys da pobl tuag ati. Yr weledigaeth yw bod y Gymraeg yn rhan hollol normal o fywyd bob dydd, a bod yna ewyllys da *tuag at* yr iaith yn ogystal ag ewyllys *i ddefnyddio'r* iaith.

Mae ymwybyddiaeth gyffredinol bod agweddau pobl, boed yn barodrwydd neu'n gyndynrwydd ar ran siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith, yn ddylanwadol iawn. Yn hynny o beth, mae angen gwell dealltwriaeth arnom o'r hyn sy'n dylanwadu ar agweddau a dewisiadau ieithyddol, gan ganolbwyntio i ddechrau ar hunaniaeth ieithyddol a seicoleg defnyddio'r Gymraeg.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod agweddau cadarnhaol at y Gymraeg eisoes yn bodoli, ond bod bwloch rhwng yr agweddau hyn a nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg. Yr her amlwg yw gweithio tuag at sefyllfa lle mae ewyllys da tuag at y Gymraeg yn cael ei throsi'n siaradwyr. Rydym am ei gweld yn rhan normal o fywyd bob dydd – yn iaith arferol i'r rheini sy'n ei siarad, yn ddewis naturiol i bobl ddwyieithog, ac yn cael ei derbyn gan y rheini nad ydynt yn ei siarad. Rydym eisoes wedi crybwyll pwysigrwydd hyn yn nogfen bolisi *Bwrw Mlaen*:

“Er mwyn newid patrymau ymddygiad ieithyddol mae angen i ni newid y ffordd rydym yn siarad ac yn teimlo am yr iaith... Yn rhy aml mae'r ddadl gyhoeddus...yn canolbwyntio ar yr heriau, y syniad bod yr iaith yn cilio, a'r rhwystrau tuag at newid.”

Amcan:

Gweld y Gymraeg fel elfen naturiol o fod yn ddinesydd yng Nghymru er mwyn ei gwneud yn berthnasol i bawb, boed yn siaradwyr Cymraeg, Saesneg neu iaith arall, ac ennyn gwerthfawrogiad ohoni ymysg pobl sy'n symud i Gymru.

Sut:

- Creu sefyllfa lle mae'n gwbl arferol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud â'r wladwriaeth a sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru.
- Cynyddu hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg fel eu bod yn fwy tebygol o ddechrau sgysiau yn Gymraeg a dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan amlycach o'r amgylchedd gweledol-clywedol fel bod modd gweld bod ganddi statws swyddogol a'i bod yn rhan annatod o dirwedd ieithyddol y wlad.
- Gwella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n effeithio ar arferion ieithyddol pobl ar bwyntiau allweddol yn eu bywydau drwy gynnal ymchwil hydredol hirdymor.

Cwestiynau ymgynghori:

Yn eich barn chi, sut arall allwn ni wella ewyllys da at y Gymraeg er mwyn ei “normaleiddio” ymhellach?

Beth arall sydd ei angen er mwyn trosi'r agweddau da sydd gan bobl at y Gymraeg yn siaradwyr?

Maes datblygu 3: Addysg

Drwy gynllunio i sicrhau bod digon o athrawon i addysgu drwy'r Gymraeg, ac o fanteisio ar ewyllys da at yr iaith, bydd hynny'n creu'r amgylchiadau i ragor o bobl ddysgu Cymraeg.

Y system addysg statudol yw'r brif ffordd sydd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac i greu siaradwyr newydd, ond rhaid i ni sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy'r Gymraeg.

Byddwn yn cryfhau prosesau cynllunio strategol ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant er mwyn sicrhau twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a hynny fel rhan o bolisi cydlynus a fydd yn cynnwys hyrwyddo, dilyniant ieithyddol rhwng y cyfnodau addysg, a chodi ymwybyddiaeth o fanteisio addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae ymrwymiad y Llywodraeth i gyflwyno un continwmm o ddysgu ar gyfer y Gymraeg yn gam mawr yn hyn o beth. Efallai mai'r ffordd orau o ddisgrifio'r gallu i gyfathrebu drwy'r Gymraeg yw fel pont neu "gontinwmm" y gall unigolion gael mynediad ato ar wahanol fannau, yn unol â'u gallu. Dylem edrych ar bawb ar y bont honno mewn ffordd bositif, ac annog pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg ar unrhyw lefel i ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, heb osod labeli artiffisial.

Rhaid i'n system addysg hyrwyddo uchelgais ar gyfer y Gymraeg, a chynnig digon o hyblygrwydd i fodloni gwahanol ofynion gan wahanol rannau o gymdeithas. Wrth inni gamu ymlaen, rhaid i'r polisi symud i ffordd o'r cysyniad o "ail iaith" tuag at ystyriaeth integredig a chydlynol o'r Gymraeg fel iaith wirioneddol fyw. Wrth reswm, bydd heriau'n codi wrth inni ddatblygu Cwricwlwm newydd i Gymru sy'n bodloni ein dyheadau, ond mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymrwymedig i ddilyn y trywydd hwn.

Amcan:

Cynyddu'n sylweddol nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog er mwyn creu rhagor o siaradwyr.

Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gadael ysgol yng Nghymru gyda sgiliau dwyieithog y gellir eu defnyddio yn y gweithlu.

Sut:

- Cynyddu capasiti i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg drwy gefnogi awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer cynyddu darpariaeth drwy eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- Symud ysgolion ar hyd y continwmm ieithyddol er mwyn cynyddu'r cyflenwad o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Bodloni'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg drwy fuddsoddiad cyfalaf lle bo'n briodol.
- Cysoni ac ehangu'r ddarpariaeth drochi i hwyrddyfodiaid yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf.

- Addysgu'r Gymraeg fel un iaith er mwyn creu continwmm sy'n fodd i wella dilyniant a chodi safonau.

Amcan:

Gwella cyfraddau dilyniant rhwng y gwahanol gyfnodau addysg a'r byd gwaith (y blynyddoedd cynnar, addysg gynradd, addysg uwchradd, addysg ôl-16, addysg uwch, prentisiaethau, y gweithle), a sicrhau bod cyfleoedd i oedolion ddysgu'r iaith.

Sut:

- Sicrhau bod dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn ddewis hollol naturiol wrth i bobl ddilyn addysg bellach ac addysg uwch.
- Defnyddio canfyddiadau ymchwil hydredol i ganfod pryd mae ymyriadau penodol yn fwyaf tebygol o wella'r gyfradd dilyniant.
- Datblygu cyfleoedd arloesol er mwyn galluogi dysgwyr i fod yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn gymdeithasol ac o fewn y teulu.

Amcan:

Sicrhau bod sefydliadau addysg yn paratoi pobl ifanc i fod yn hyderus i ddefnyddio'u Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol a chymdeithasol.

Sut:

- Parhau i ddatblygu a gweithredu fframwaith sy'n cefnogi ysgolion i gynyddu defnydd anffurfiol disgyblion o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Cwestiwn ymgynghori: A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg?

Maes datblygu 4: Pobl

Yn y bôn mae iaith yn bodoli oherwydd ymwneud pobl â'i gilydd, ac mae angen cyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg ar bobl o bob lefel o allu ac o bob cefndir. Mae hyn yn golygu cyfleoedd ar gyfer yr unigolyn a chyfleoedd torfol, cymunedol.

Rydym yn cydnabod bod ystyr "cymuned" bellach yn cynnwys rhwydweithiau diddordeb a digidol sydd nid yn unig yn gallu creu cysylltiadau rhwng pobl ar wasgar mewn dinasoedd neu ardaloedd yn nwf n cefn gwlad, ond all hefyd bontio cyfandiroedd. Rhaid gofyn, felly, i ba raddau y mae'r pwyslais ar gymuned fel endid daearyddol preswyl yn bwysig erbyn hyn? A yw'r dwysedd siaradwyr sy'n cael ei greu wrth i bobl deithio i'r gwaith yn bwysicach na'r gymdogaeth lle mae pobl yn byw? A yw dwysedd siaradwyr Cymraeg ar lawr gwlad mor arwyddocaol ag y bu? A oes angen parhau i gydnabod hefyd bwysigrwydd cymunedau yn ystyr traddodiadol neu hanesyddol y gair?

Mae yna gydberthynas agos rhwng caffael (cydnabyddir mai'r prif ffyrdd o gaffael iaith yw drwy drosglwyddo yn y teulu ac addysg) a defnydd iaith, oherwydd er mwyn llwyddo i gaffael mae angen cyfleoedd i ymarfer a defnyddio'r iaith. Gellid cymharu'r berthynas hon â llinynnau mewn rhaff sy'n cordeddu a chyd-blethu, gyda'r pwyslais ar y naill neu'r llall yn cynyddu ac yn gwanhau ar bwyntiau gwahanol ym mywyd yr unigolyn. Yr her i ni fel Llywodraeth yw dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir ar y pwyntiau allweddol hyn, a sicrhau bod y Gymraeg yn rhan berthnasol, ddeniadol o fywyd o'r crud i'r bedd.

Os felly, mae angen cyfleoedd ar bob rhan o'r daith, ac mewn amrediad o sefyllfaoedd sydd yr un mor eang â'r holl ffyrdd y gall pobl fyw eu bywydau. Mae'n dilyn os yw pobl am fanteisio ar y cyfleoedd hyn, rhaid i'r cyfleoedd hefyd fod ar gael iddynt yn rhagweithiol, heb fod yn rhaid iddynt ofyn am y Gymraeg. Yn y pen draw yr weledigaeth yw bod pobl sy'n medru'r Gymraeg, ar ba bynnag lefel, yn elwa ar bob cyfle i'w defnyddio.

Rhaid cofio hefyd os ydym am wneud y Gymraeg yn rhan normal o fywyd bob dydd yng Nghymru, ac ennyn cefnogaeth eang i'n hymdrechion mewn perthynas â chaffael, bydd yn hollbwysig cynyddu defnydd ymysg y rheini sydd eisoes yn siarad Cymraeg.

Bydd llwyddiant ein hymdrechion i gynyddu defnydd yn dibynnu ar brysurdeb y groesffordd lle mae elfennau caffael, hyder a rhuglder, ansawdd y cyfleoedd, ac awydd i ddefnyddio sgiliau yn dod ynghyd.

Amcan:

Cynyddu'r gyfradd drosglwyddo oddi mewn i deuluoedd er mwyn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn medru'r Gymraeg ac yn ei defnyddio.

Sut:

- Cynyddu cyfleoedd i rieni a gofalwyr ddysgu Cymraeg, neu fagu hyder yn eu sgiliau, er mwyn cynyddu faint o Gymraeg sydd yn cael ei siarad yn y cartref.

Amcan:

Sicrhau bod rhagor o leoedd yn bodoli lle mae'n hollol amlwg mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol, fel ei bod yn teimlo'n ddiogel defnyddio'r Gymraeg fel iaith awtomatig.

Cefnogi cymunedau neu gymdogaethau lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol fel yr iaith gyffredin.

Sut:

- Parhau i gefnogi cyrff a chanolfannau sy'n cynnig arlwy Cymraeg yn ddiamod.
- Sicrhau bod cyfleoedd cymdeithasol amrywiol ar gael i gynyddu hyder a gwella sgiliau unigolion wrth iddynt gaffael y Gymraeg.
- Gwella ein dealltwriaeth o'r ffactorau lleol sy'n effeithio ar y Gymraeg, ac o'r drafodaeth ynghylch sut mae'r diffiniad o "gymuned" yn esblygu, a chynllunio'n unol â hynny.

Cwestiwn ymgynghori: A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio Cymraeg?

Maes datblygu 5: Cefnogi

Er mwyn creu'r amgylchiadau i alluogi cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith, mae angen seilwaith cadarn arni.

Mae ieithoedd byw yn esblygu'n barhaus ac yn adlewyrchu'r byd o'u cwmpas. Credwn fod angen cynnal seilwaith ieithyddol modern (gan gynnwys corpora, geiriaduron, ac adnoddau terminoleg) er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fodern a pherthnasol, a'i bod yn hollbwysig buddsoddi mewn datblygiadau technolegol – maes lle mae'r dirwedd yn newid yn gyson – er mwyn sicrhau bod modd defnyddio'r Gymraeg mewn cymaint o gyd-destunau â phosibl.

Bydd buddsoddiad hirdymor yn y seilwaith hwn yn parhau'n flaenoriaeth er mwyn rhoi'r iaith ar sylfaen gadarn at y dyfodol.

Amcan:

Sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn gyfoes ac yn parhau i ddatblygu.

Sut:

- Buddsoddiad hirdymor mewn cynlluniau corpws, geiriadura a therminoleg, ac adnoddau addysg.
- Darparu arweiniad ym maes cyfieithu fel bo'r proffesiwn yn datblygu mewn modd sy'n ateb y galw.

Amcan:

Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth dechnolegol a digidol er mwyn galluogi pawb i fyw eu bywydau drwy'r Gymraeg.

Sut:

- Buddsoddi mewn cynlluniau i greu seilwaith technolegol (cyfieithu â chymorth cyfrifiadur, deallusrwydd artiffisial (AI), technoleg adnabod llais, ac ati) fel bod modd defnyddio'r Gymraeg ar declynnau electronig.
- Dylanwadu ar y sector preifat i fuddsoddi mewn technoleg iaith yng Nghymru, mewn partneriaeth â'r sector technoleg iaith yn rhyngwladol.

Amcan:

Bod cyfryngau amrywiol a pherthnasol ar gael yn Gymraeg.

Sut:

- Er nad yw darlledu wedi ei ddatganoli, dylanwadu er mwyn sicrhau bod yr arlwy o ran teledu a radio ac ar yr holl wahanol fathau o gyfryngau yn parhau'n gyfoes ac yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg o bob oedran.
- Sicrhau bod dewis helaeth o gyhoeddiadau Cymraeg ar gael mewn amrywiol fformatau, er mwyn ymateb i'r galw gan wahanol gynulleidfaoedd.

Cwestiwn ymgynghori: A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn rhoi gwell seilwaith i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Maes datblygu 6: Hawliau

Mae sawl darn o ddeddfwriaeth wedi eu pasio dros yr hanner canrif diwethaf sy'n ategu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, eu rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, a chael gwasanaethau Cymraeg. Y diweddaraf o'r rhain yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a sefydlodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Ac er nad yw'r Mesur ynddo'i hun yn golygu bod rhagor o bobl yn siarad yr iaith, mae'n sylfaen gadarn i adeiladu at y dyfodol, gan ei bod yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, yn cyflwyno dyletswyddau drwy'r safonau iaith ar y sail ei bod yn cael ei chynnig yn rhagweithiol, ac yn caniatáu ymchwilio i unrhyw ymyrraeth ar ryddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Nod yr hawliau cyfredol yw gwella arlwy'r sefydliadau sydd yn dod o dan y safonau. Mae angen ysgogi unigolion i fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r hawliau hyn yn eu cynnig. Y nod hirdymor yw symud at sefyllfa lle mae'r hawliau hyn wedi eu gwreiddio fel rhan naturiol o wasanaethau.

Byddwn yn parhau i adolygu'r ddeddfwriaeth dros y cyfnod sydd i ddod er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr oes sydd ohoni, a'i bod yn atgyfnerthu hyder siaradwyr i ddefnyddio gwasanaethau.

Amcan:

Sicrhau bod y sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer y Gymraeg yn addas ac yn gyfredol.

Sut:

- Manteisio i'r eithaf ar Safonau'r Gymraeg fel ffordd o wella ymwybyddiaeth pobl a chyrrff o'r Gymraeg, ac o roi hawl i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Datblygu cydbwysedd gwell rhwng hyrwyddo, deddfwriaeth a rheoleiddio.

Cwestiwn ymgynghori: A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn gwella hawliau siaradwyr Cymraeg?

Adran 5 – Gweithredu yn y tymor byr: y pum mlynedd cyntaf

Tra bo ein gweledigaeth yn un hirdymor, a bod nifer y siaradwyr yn rhywbeth y gellir ei fesur yn ystrolon fesul cenhedlaeth, rhaid i ni weithredu a gosod y seiliau nawr. A rhaid i'r gweithredoedd hynny adlewyrchu maint ein huchelgais.

Rydym yn glir bod y system addysg am fod yn allweddol o ran creu siaradwyr Cymraeg y dyfodol. Mae ein system addysg, wrth reswm, yn llwyr ddibynnol ar ein hathrawon. Ein blaenoriaeth fwyaf dros y pum mlynedd nesaf felly fydd cynyddu capasiti'r system addysg i ddiwallu'r angen i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, ac i ddiwallu'r angen i wella sut caiff y Gymraeg ei haddysgu yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hynny'n golygu hyfforddi athrawon newydd a gwella sgiliau'r athrawon presennol.

Ar yr un pryd, rydym am ystywto'r gyfundrefn i awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio i gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd gwaith hefyd yn parhau i gynllunio a datblygu cwricwlwm newydd i Gymru, gan gynnwys y dyhead o gyflwyno un continwrm o ddysgu ar gyfer y Gymraeg.

Y tu hwnt i'r system addysg, blaenoriaeth arall ar gyfer y pum mlynedd nesaf fydd datblygu a gwreiddio diwylliant o gynllunio systemig ar gyfer y Gymraeg ar gyfer llywodraethiant ar bob lefel. Bydd angen canolbwyntio yn y man cyntaf ar hyfforddi arweinwyr i gynllunio ar gyfer y Gymraeg, a byddwn yn ystyried yn ofalus ein hymateb i'r adroddiad *laith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog*, a gyflwynwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Bydd y gwaith rydym yn ei wneud i sicrhau bod mesurau clir yn eu lle i liniaru effaith y datblygiad Wylfa Newydd ar y Gymraeg yn bwysig yng nghyd-destun sefyllfa'r Gymraeg yn y gogledd-orllewin, ac yn gyfle i ni ddysgu gwersi pwysig ynghylch sut i asio datblygu economaidd â chynllunio ieithyddol.

Mae ein bywydau yn gynyddol ddibynnol ar dechnoleg a'r we, a rhaid wrth weithredu pendant a buan er mwyn rhoi cyfle i'r Gymraeg fod yn rhan ganolog a diofyn o ddatblygiadau. Disgwylwn weld camau breision yn cael eu cymryd yn ystod y pum mlynedd nesaf i sicrhau bod y seilwaith technolegol yn ei le, er mwyn i gwmnïau o bob maint allu manteisio a chreu offer a gwasanaethau digidol i siaradwyr Cymraeg.

Tra bydd nifer o'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y tymor byr yn rhai sy'n gosod seilwaith i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr hirdymor, nid yw pob ymyrraeth cynllunio ieithyddol o reidrwydd yn rhai hirdymor eu natur. Er enghraifft, gall penderfyniad rhieni i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant o'r crud ddwyn ffrwyth o fewn tair blynedd, ac mae penderfyniad i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg hefyd yn un sy'n talu ffordd mewn cyfnod byr. Yn hynny o beth, bydd ein rhaglen Cymraeg i Blant yn flaenoriaeth bwysig.

O gymryd cyfnod unigolyn yn yr ysgol, mae nifer o bwyntiau lle mae penderfyniadau – boed yn rhai academaidd neu gymdeithasol eu natur – yn dylanwadu ar daith yr unigolyn o safbwynt ieithyddol. Bydd ehangu'r siarter iaith - fframwaith i annog y plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol - i ysgolion ar draws Cymru yn gam pwysig i wreiddio hunaniaeth Gymraeg yn ein plant, fel eu bod yn gweld pwysigrwydd y Gymraeg drostynt eu hunain, yn mynnu ei siarad ac, yn y dyfodol, yn ei throsglwyddo i'w plant hwythau.

O ran cyfleoedd i oedolion ddysgu'r iaith, rydym mewn cyfnod newydd, gyda strwythurau newydd a fydd yn arwain at ddatblygu cyfleoedd arloesol i ddysgwyr ddod yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn gymdeithasol ac yn y teulu.

Mae gweld a chlywed y Gymraeg ar y stryd fawr yn rhan bwysig o'n nod i normaleiddio'r Gymraeg yn ein cymunedau. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cymorth ymarferol ar gael i gyrff nad ydynt yn dod o dan y safonau, er mwyn prif-ffrydio'r Gymraeg i'r gwasanaethau maent yn eu cynnig i'r cyhoedd. Mae hyn yn rhan bwysig o'n gwaith hyrwyddo, a byddwn yn datblygu cynlluniau pellach i farchnata a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg er mwyn cefnogi pobl i ddefnyddio'r iaith mewn ffyrdd ymarferol, creadigol a hwyliog.

Bydd hyn oll yn golygu creu polisïau manwl newydd, gan dargedu meysydd lle mae wir eu hangen, a sicrhau eu bod yn gweithio tuag at y nodau hirdymor a nodir yn y strategaeth ddrafft hon.

Cwestiwn ymgynghori: Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres o bolisïau manwl mewn meysydd penodol dros gyfnod y strategaeth hon. Pa bolisïau ydych chi'n meddwl y dylem eu blaenoriaethu i'w cyhoeddi dros 5 mlynedd cyntaf y strategaeth?

Adran 6 – Diwedd glo

Mae'n anrhydedd mawr i Lywodraeth Cymru gael arwain a gosod cyfeiriad yn y maes cynllunio ieithyddol ar gyfer y Gymraeg. Ein nod yw gosod y sylfeini er mwyn i ragor o bobl allu siarad Cymraeg, fel bod rhyddid iddynt wedyn ei defnyddio fel y mynnant – i gyfathrebu, dysgu, gweithio, creu, a mwynhau.

Yn y strategaeth ddrafft hon, rydym wedi gosod yr her o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn canol y ganrif, ac wedi darparu cyd-destun er mwyn gosod y man cychwyn. Rydym hefyd wedi amlinellu ein gweledigaeth hirdymor mewn perthynas â materion sy'n gyffredin i gymaint o ieithoedd y byd.

Credwn fod ein meysydd strategol – Cynllunio, Normaleiddio, Addysg, Pobl, Cefnogi, a Hawliau – yn cwmpasu'r camau y mae angen eu cymryd. Rydym hefyd yn cydnabod nad yw'r atebion i gyd gennym, a bod y Gymraeg yn iaith i bawb ac felly'n gyfrifoldeb i bawb, boed yn unigolion, yn awdurdodau lleol, yn gwmnïau neu'n llywodraeth.

Bydd eich ymateb chi i'r ymgynghoriad yn llywio ein dull o symud tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg dros y tri degawd nesaf a mwy.